Coleg Gwent

TAFLEN GWYBODAETH AM Y CWRS

# VTCT Diploma mewn Gwallt a Cholur Cyfryngau (Oedolion) Lefel 2



**Yn gryno**

Mae artistiaid colur yn dyfeisio ac yn rhoi colur i gyfleu ymdeimlad o ddrama, p'un a yw ar gyfer ffilm, theatr, ffotograffau neu lwyfan cyfryngau cymdeithasol. Bydd cymhlethdod a'r math o gysyniad yn amrywio yn dibynnu ar y cynhyrchiad a'r cymeriad, ond gall artistiaid colur da gyfleu ystod eang o edrychiadau ar draws amrywiaeth o genres.

Wrth weithio fel artist colur, ceir amrywiaeth o lwybrau dilyniant. Mae natur lawrydd y proffesiwn yn golygu y gallwch symud rhwng bod yn gynorthwyydd colur dan hyfforddiant, artist colur, prif artist colur a rolau dylunio, yn dibynnu ar eich profiad.

**Dyma'r cwrs i chi os...**

... Oes gennych ddiddordeb mewn dod yn artist colur

... Oes gennych ddiddordeb arbennig mewn theatr neu ffilm

... Byddech wrth eich bodd yn dysgu technegau colur newydd ac yn arbrofi gydag edrychiadau

newydd

... Rydych yn greadigol ac yn gweithio'n galed

**Beth fyddaf yn ei wneud?**

Fel artist colur, rydych yn gyfrifol am goluro a steilio gwallt pobl sy'n ymddangos mewn ffilmiau, rhaglenni teledu, sesiynau tynnu lluniau neu ddigwyddiadau byw megis cyngherddau, sioeau neu sioeau ffasiwn. Mae trin gwallt yn chwarae rhan bwysig yn y cwrs hwn ac mae'r diwydiant yn cyflogi unigolion amryddawn sy'n gallu coluro a steilio gwallt.

Yn ystod y cwrs, byddwch yn dysgu technegau trin gwallt sylfaenol a sgiliau colur penodol i'r cyfryngau yn cynnwys:

Colur ar gyfer y llwyfan
Heneiddio ar gyfer y llwyfan
Effeithiau arbennig
Lleoliad gwaith
Gwneud wigiau
Trin gwallt sylfaenol
Defnyddio wigiau gwallt
Colur ffasiwn
Colur ffotograffig
Colur cyfnod
Paentio wyneb
Cynllunio celf corff
Gwneud celf ewinedd

Byddwch yn cael eich asesu drwy aseiniadau ymarferol neu ar sail thema, portffolio o waith a chwestiynau prawf amlddewis.

Pan fyddwch yn cwblhau'r cwrs, byddwch yn ennill Diploma Lefel 2 mewn Gwallt a Cholur y Cyfryngau.

**Beth a ddisgwylir ohonof i?**

I gael lle ar y cwrs, byddwch angen o leiaf 3 TGAU gradd D neu uwch neu gymhwyster Diploma Lefel 1 priodol, A dawn greadigol neu brofiad o waith celf.

Bydd ymgeiswyr nad oes ganddynt y cymwysterau TGAU gofynnol yn cael eu hystyried yn seiliedig ar brofiad blaenorol neu gymwysterau eraill.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn, gallwch fynd ymlaen i astudio Diploma Lefel 3 mewn Colur Theatrig ac i'r Cyfryngau, neu fynd yn syth i gyflogaeth neu addysg bellach.

Wrth weithio fel artist colur, byddwch yn dysgu nad oes un llwybr datblygu penodol. Mae natur lawrydd y proffesiwn yn golygu y gallwch symud rhwng cynorthwyydd colur dan hyfforddiant, artist colur, prif artist colur a rolau dylunio, yn dibynnu ar eich profiad.

**Gwybodaeth Ychwanegol**

Yn ystod y cwrs, bydd angen i chi lynu at ein cod gwisg:

Mae'n rhaid gwisgo tiwnig gyda throwsus ac esgidiau duon call mewn salonau
Rhaid clymu gwallt yn ôl yn daclus oddi wrth yr wyneb a gwisgo colur er mwyn edrych yn broffesiynol
Dim tlysau amlwg
Cewch wisgo modrwy briodas yn unig yn yr ystafell golur

Fel amod o'ch lle ar y cwrs hwn, bydd disgwyl i chi brynu'r offer priodol oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy, cost i'w gardarnhau.

I adlewyrchu disgwyliadau'r diwydiant, bydd gofyn i chi wisgo gwisg salon Coleg Gwent y gellir ei harchebu oddi wrth ein cyflenwr cymeradwy. Gellir cael manylion ar sut i archebu eich gwisg salon am ddim, a setiau ychwanegol, yn ogystal ag opsiynau talu'r cyflenwyr, oddi wrth eich Pennaeth Ysgol, Darlithydd neu Dechnegydd. Y pris ar gyfer 2024/2025 yw £45, yn amodol ar gynnydd mewn prisiau chwyddiant.

Gall fod costau ychwanegol yn ystod y flwyddyn ar gyfer ymweliadau addysgol.

Mae'r holl gostau yn cael eu hadolygu a gallent newid.